Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 584 (Cy. 161)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/40 (Cy. 11)) ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132) (y "Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru o wledydd neu diriogaethau nad ydynt yn esempt ynysu am gyfnod sydd i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliadau 3 i 8 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag archebu a chymryd profion ar gyfer personau sy'n cyrraedd Cymru ar ôl teithio y tu allan i'r ardal deithio gyffredin o fewn y 10 niwrnod blaenorol. Mae'n ofynnol i bersonau sy'n teithio i Gymru ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth esempt a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol archebu a chymryd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

prawf diwrnod 2, tra bo rhaid i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt archebu a chymryd prawf diwrnod 2 a diwrnod 8. Gwneir darpariaeth hefyd yn ymwneud â methu â chymryd profion a goblygiadau canlyniadau profion. Mae rheoliadau 9 i 14 yn gwneud diwygiadau canlyniadol yng ngoleuni'r darpariaethau yn rheoliadau 3 i 8.

Mae rheoliad 15 yn ychwanegu gwledydd a thiriogaethau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn gosod gofyniad ar bersonau sy'n gweithredu gwasanaethau teithwyr rhyngwladol ("gweithredwyr") sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin. Yn unol â'r gofynion hynny rhaid i weithredwyr, er enghraifft, sicrhau bod teithwyr sy'n teithio ar y gwasanaethau hynny yn meddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol a'u bod wedi gwneud trefniadau i gymryd profion pellach ar ôl iddynt gyrraedd.

O ganlyniad i'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan y Rheoliadau hyn, mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr er mwyn adlewyrchu'r llacio ar y cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn gosod gofynion ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodedig i deithwyr.

O ganlyniad i'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan y Rheoliadau hyn, mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r wybodaeth iechyd y cyhoedd benodedig y mae rhaid i weithredwyr ei darparu i deithwyr cyn iddynt deithio i Gymru ac wrth iddynt deithio iddi.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 584 (Cy. 161)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 2.40 p.m. ar 14 Mai 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 6.00 p.m. ar 14 Mai 2021* |
| *Yn dod i rym* | *am 6.00 a.m. ar 17 Mai 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dehongli a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 a.m. ar 17 Mai 2021.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr" ("*the Operator Liability Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021(**1**);

ystyr "y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd" ("*the Public Health Information Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020(**2**);

ystyr "y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" ("*the International Travel Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**3**).

## RHAN 2

## Diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**2.** Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 15.

---

(**1**) O.S. 2021/48 (Cy. 11), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/171 (Cy. 39) ac O.S. 2020/305 (Cy. 78).

(**2**) O.S. 2020/595 (Cy. 136), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/1118 (Cy. 253), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/171 (Cy. 39) ac O.S. 2021/457 (Cy. 145).

(**3**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149) ac O.S. 2021/568 (Cy. 156).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Rheoliad newydd 6AB (gofyniad i archebu a chymryd profion)**

**3.** Yn lle rheoliadau 6B a 6C rhodder—

**“Gofyniad i archebu a chymryd profion**

**6AB.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys i berson (“P”) sy’n 5 oed neu drosodd—

(a) sy’n cyrraedd Cymru,

(b) sydd wedi bod y tu allan i’r ardal deithio gyffredin o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy’n dod i ben â’r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, ac

(c) nad yw’n berson a ddisgrifir yn—

(i) paragraff 1(1)(a) i (k) o Atodlen 2 sy’n bodloni’r amodau ym mharagraff 1(2) o’r Atodlen honno;

(ii) paragraffau 2 i 16, ac 36 o Atodlen 2;

(iii) paragraff 14 o Atodlen 5.

(2) Yn y Rhan hon—

(a) “prawf diwrnod 2” yw prawf sy’n cydymffurfio â pharagraff 1 o Atodlen 1C sy’n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A o’r Atodlen honno;

(b) “prawf diwrnod 8” yw prawf sy’n cydymffurfio â pharagraff 2 o Atodlen 1C sy’n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 2A o’r Atodlen honno;

(c) “darparwr prawf cyhoeddus” yw person sy’n darparu neu’n gweinyddu prawf gan arfer pwerau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978, neu Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972;

(d) ystyr “pecyn profi” yw—

(i) mewn cysylltiad â pherson y mae rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, archeb ar gyfer prawf diwrnod 2 a phrawf diwrnod 8;

(ii) mewn cysylltiad â pherson (“P”) sy’n cyrraedd Cymru ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth esempt a restrir yn Atodlen 3 o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy’n dod i ben â’r diwrnod y mae P yn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cyrraedd Cymru, archeb ar gyfer prawf diwrnod 2.

(3) Pan fo P yn oedolyn, rhaid i P, wrth iddo gyrraedd Cymru, feddu ar becyn profi a drefnir gyda darparwr prawf cyhoeddus—

(a) ar gyfer P, a

(b) ar gyfer plentyn sy'n 5 oed neu drosodd y mae gan P gyfrifoldeb drosto ac y mae P yn teithio gydag ef.

(4) Pan fo P yn oedolyn sy'n cyrraedd Cymru heb feddu ar becyn profi sy'n ofynnol o dan baragraff (3), rhaid i P gael pecyn profi cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(5) Nid yw prawf i'w drin fel pe bai wedi ei drefnu yn unol â'r rheoliad hwn oni bai—

(a) bod y person sy'n trefnu'r profion wedi hysbysu'r darparwr prawf cyhoeddus fod y profion yn cael eu trefnu at ddibenion y rheoliad hwn, a

(b) bod yr wybodaeth yn Atodlen 1B wedi ei darparu i'r darparwr prawf cyhoeddus mewn perthynas â P.

(6) Pan drefnir y profion, rhaid i'r darparwr prawf cyhoeddus ddarparu cyfeirnod prawf—

(a) i P, a

(b) i unrhyw berson sy'n trefnu profion ar ran P.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), pan fo P—

(a) yn oedolyn, rhaid iddo gymryd y profion yn unol â'i becyn profi;

(b) yn blentyn sy'n 5 oed neu drosodd, rhaid i oedolyn sydd â chyfrifoldeb dros P sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, fod P yn cymryd y profion yn unol â'r pecyn profi.

(8) Pan fo prawf diwrnod 2 P yn cynhyrchu canlyniad positif, nid yw'n ofynnol i P gymryd prawf diwrnod 8.

(9) Pan na fo P yn cymryd prawf fel sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn am fod ganddo esgus rhesymol, rhaid i P, cyn gynted ag y bo'n ymarferol pan na fydd y materion sy'n arwain at yr esgus rhesymol yn gymwys mwyach, gymryd prawf ("prawf arall") sy'n cydymffurfio â'r gofynion sy'n gymwys i'r prawf nas cynhaliwyd.

(10) Pan gymerir prawf arall yn lle—

(a) prawf diwrnod 2, mae P i'w drin fel pe bai wedi cymryd prawf diwrnod 2 yn unol â'r rheoliad hwn;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) prawf diwrnod 8, mae P i'w drin fel pe bai wedi cymryd prawf diwrnod 8 yn unol â'r rheoliad hwn.

(11) Rhaid i berson sy'n meddu ar becyn profi ddarparu tystiolaeth ohono os yw swyddog mewnfudo neu gwnstabl yn gofyn amdani."

**Rheoliadau newydd 6DA a 6DB (gofyniad i ynysu o fethu â chymryd profion)**

**4.** Yn lle rheoliad 6D rhodder—

**"Gofyniad i ynysu o fethu â chymryd profion: teithwyr o wledydd a thiriogaethau nad ydynt yn esempt**

**6DA.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â pherson ("P") y mae rheoliadau 6AB(1) a naill ai 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo—

(a) P yn methu â chymryd prawf diwrnod 8, a

(b) naill ai—

(i) P yn methu â chymryd prawf diwrnod 2, neu

(ii) prawf diwrnod 2 P yn cynhyrchu canlyniad negyddol neu amhendant.

(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw diwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P).

(4) Pan fo paragraff (2) yn gymwys ond bod P yn cymryd prawf y mae paragraff (5) yn gymwys iddo wedi hynny a—

(a) bod y canlyniad yn bositif, mae rheoliad 6E yn gymwys fel pe bai'r prawf wedi ei gymryd yn unol â rheoliad 6AB;

(b) bod y canlyniad yn negyddol, mae rheoliad 6G yn gymwys fel pe bai—

(i) P wedi cymryd prawf diwrnod 2 a phrawf diwrnod 8 yn unol â rheoliad 6AB, a

(ii) y ddau brawf yn negyddol.

(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i brawf diwrnod 8 a gymerir—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) cyn diwedd cyfnod ynysu P fel y byddai wedi ei bennu o dan reoliad 12 pe na bai paragraff (2) yn gymwys, ond

(b) yn ddim cynharach na diwedd y seithfed diwrnod ar ôl y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

**Gofyniad i ynysu o fethu â chymryd profion: teithwyr o wledydd a thiriogaethau esempt**

**6DB.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â pherson ("P") y mae rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo ond nad yw rheoliad 7(1) na 8(1) yn gymwys iddo.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo P yn methu â chymryd prawf diwrnod 2.

(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3 ddiwethaf.

(4) Pan fo paragraff (2) yn gymwys ond bod P yn cymryd prawf y mae paragraff (5) yn gymwys iddo wedi hynny a—

(a) bod y canlyniad yn bositif, mae rheoliad 6E yn gymwys fel pe bai'r prawf wedi ei gymryd yn unol â rheoliad 6AB;

(b) bod y canlyniad yn negyddol, nid yw'n ofynnol i P ynysu yn unol â rheoliad 7 mwyach.

(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i brawf—

(a) sy'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer prawf diwrnod 2 ym mharagraff 1 o Atodlen 1C,

(b) a drefnir yn unol â rheoliad 6AB(5), ac

(c) sy'n cael ei gymryd o fewn 10 niwrnod i'r diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru."

**Amnewid rheoliad 6E (goblygiadau canlyniad prawf positif)**

**5.** Yn lle rheoliad 6E (goblygiadau canlyniad prawf positif) rhodder—

"**6E.** Pan fo prawf a gymerir gan berson ("P") yn unol â rheoliad 6AB yn bositif—

(a) pan fo P yn berson—

(i) y mae rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P), neu

(ii) nad yw rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf, a

(b) nid yw rheoliad 10(3) (gofyniad i ynysu yn peidio â bod yn gymwys i P pan fydd P yn gadael Cymru) o'r Rheoliadau hyn ac, yn ddarostyngedig i reoliad 6I, rheoliad 6 neu 7, fel y bo'n briodol, o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru)(**1**) 2020 yn gymwys mewn perthynas â P."

**Diwygiadau i reoliad 6F**

**6.** Yn rheoliad 6F (goblygiadau canlyniad positif i berson sy'n preswylio yn yr un fangre)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "rheoliad 6C" rhodder "rheoliad 6AB";

(b) ym mharagraff (3)(a), yn lle "rheoliad 6C(1)(b)" rhodder "rheoliad 6AB";

(c) ym mharagraff (3)(b), yn lle "rheoliad 6C(1)(a)" rhodder "rheoliad 6AB".

**Diwygiad i reoliad 6G**

**7.** Yn rheoliad 6G(1)(a) (goblygiadau peidio â chael canlyniad prawf diwrnod 8 cyn diwedd y cyfnod ynysu), yn lle "rheoliad 6C(1)" rhodder "rheoliad 6AB".

**Rheoliadau newydd 6HA a 6HB (goblygiadau cael canlyniad prawf amhendant)**

**8.** Yn lle rheoliad 6H (goblygiadau cael canlyniad prawf amhendant) rhodder—

(**1**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**"Goblygiadau cael canlyniad prawf amhendant: teithwyr o wledydd a thiriogaethau nad ydynt yn esempt**

**6HA.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â pherson ("P") y mae rheoliadau 6AB(1) a naill ai 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo canlyniad prawf a gymerir gan P yn unol â rheoliad 6AB yn amhendant.

(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw—

(a) diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf, neu

(b) pan fo P yn cymryd prawf y mae paragraff (5) yn gymwys iddo a bod canlyniad y prawf yn negyddol, y diweddaraf o'r canlynol—

(i) diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf, neu

(ii) y diwrnod y mae P yn cael y canlyniad negyddol, neu

(c) pan fo P yn cymryd prawf y mae paragraff (5) yn gymwys iddo a bod canlyniad y prawf yn bositif, diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf.

(4) Pan fo paragraff (3)(c) yn gymwys, nid yw'n ofynnol i P gymryd y prawf diwrnod 8 yn unol â rheoliad 6AB.

(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i—

(a) prawf diwrnod 8 a gymerir yn unol â rheoliad 6AB;

(b) prawf—

(i) sy'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer prawf diwrnod 8 ym mharagraff 2 o Atodlen 1C,

(ii) a drefnir yn unol â rheoliad 6AB(5), a

(iii) sy'n cael ei gymryd—

(aa) cyn diwedd cyfnod ynysu P fel y byddai wedi ei bennu o dan reoliad 12 pe na bai paragraff (1) yn gymwys, ond

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(bb) cyn diwedd y seithfed diwrnod ar ôl y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

**Goblygiadau cael canlyniad prawf amhendant: teithwyr o wledydd a thiriogaethau esempt**

**6HB.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â pherson ("P") y mae rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo ond nad yw rheoliad 7(1) na 8(1) yn gymwys iddo.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo canlyniad prawf a gymerir gan P yn unol â rheoliad 6AB yn amhendant.

(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3 ddiwethaf.

(4) Pan fo paragraff (2) yn gymwys ond bod P yn cymryd prawf y mae paragraff (5) yn gymwys iddo wedi hynny a—

(a) bod y canlyniad yn bositif, mae rheoliad 6E yn gymwys fel pe bai'r prawf wedi ei gymryd yn unol â rheoliad 6AB;

(b) bod y canlyniad yn negyddol, nid yw'n ofynnol i P ynysu yn unol â rheoliad 7 mwyach.

(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i brawf—

(a) sy'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer prawf diwrnod 2 ym mharagraff 1 o Atodlen 1C,

(b) a drefnir yn unol â rheoliad 6AB(5), ac

(c) sy'n cael ei gymryd o fewn 10 niwrnod i'r diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru."

**Diwygiadau i reoliad 14**

**9.** Yn rheoliad 14 (troseddau)—

(a) ym mharagraff (1)(h), yn lle "6B a 6C" rhodder "6AB";

(b) ym mharagraff (1)(i), yn lle "6D" rhodder "6DA a 6DB";

(c) ym mharagraff (1B), yn lle "6B, 6C" rhodder "6AB";

(d) ym mharagraff (1C), yn lle "rheoliad 6B" rhodder "rheoliad 6AB";

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(e) ym mharagraff (1D), yn lle "rheoliad 6C" rhodder "rheoliad 6AB".

**Diwygiadau i reoliad 16**

**10.** Yn rheoliad 16 (hysbysiadau cosb benodedig)—

(a) ym mharagraff (6)(ab), yn lle "reoliad 6D" rhodder "reoliad 6DA neu 6DB";

(b) ym mharagraff (6AB)—

(i) yn lle "rheoliad 6B(3) neu (5)" rhodder "rheoliad 6AB(3)";

(ii) yn lle "rheoliad 6C(1) neu (3)", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "rheoliad 6AB(7)".

**Diwygiadau i reoliad 17**

**11.** Yn rheoliad 17(2)(a) (defnyddio a datgelu gwybodaeth)—

(a) ym mharagraff (iii)—

(i) yn y geiriau cyn is-baragraff (aa), yn lle'r geiriau o "trefnu" hyd at y diwedd rhodder "trefnu neu'n cymryd prawf o dan reoliad 6AB";

(ii) yn is-baragraff (bb)—

(aa) yn lle "reoliad 6B(2)(c)" rhodder "reoliad 6AB(2)(c)";

(bb) yn lle "reoliad 6B(6)" rhodder "reoliad 6AB(6)";

(iii) yn is-baragraff (dd), yn lle "rheoliad 6C" rhodder "rheoliad 6AB";

(b) ym mharagraff (iv), yn lle "rheoliad 6B(8)" rhodder "rheoliad 6AB(11)";

(c) ym mharagraff (v), yn lle "reoliad 6C" rhodder "reoliad 6AB".

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**12.** Yn Atodlen 1 (gwybodaeth am deithiwr), ym mharagraff 3—

(a) yn lle "rheoliad 6B" rhodder "rheoliad 6AB";

(b) yn lle "rheoliad 6B(7)" rhodder "rheoliad 6AB(6)".

**Diwygiadau i Atodlen 1B**

**13.** Yn Atodlen 1B (gwybodaeth archebu)—

(a) yn y nodyn cwr tudalen, yn lle "Rheoliad 6B" rhodder "Rheoliad 6AB";

(b) yn lle paragraff 2(a) rhodder—

"(aa) cyfeiriad cartref P;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ab) pan fo P yn berson y mae rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, y cyfeiriad y mae'n bwriadu ynysu ynddo (os yw'n wahanol i'w gyfeiriad cartref);

(ac) pan fo P yn berson nad yw rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, y cyfeiriad neu'r cyfeiriadau y mae'n bwriadu aros ynddo neu ynddynt yn ystod y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y dyddiad y cyrhaeddodd y Deyrnas Unedig;".

**Diwygiadau i Atodlen 1C**

**14.** Yn Atodlen 1C (profion mandadol ar ôl cyrraedd Cymru)—

(a) yn y nodyn cwr tudalen, yn lle "Rheoliad 6B" rhodder "Rheoliad 6AB";

(b) ar ôl paragraff 1 mewnosoder—

"**1A.** Yr amgylchiadau a grybwyllir yn rheoliad 6AB(2)(a) yw bod P yn cymryd y prawf diwrnod 2 heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru.";

(c) ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

"**2A.** Yr amgylchiadau a grybwyllir yn rheoliad 6AB(2)(b) yw bod P yn cymryd y prawf diwrnod 8 heb fod yn hwyrach na diwedd y seithfed diwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru."

**Diwygiadau i Atodlen 3**

**15.** Yn Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin)—

(a) yn Rhan 1, yn lle "Nid yw unrhyw wledydd, unrhyw diriogaethau nac unrhyw rannau o wledydd neu diriogaethau wedi eu pennu yn y Rhan hon" rhodder y cofnodion a ganlyn—

"Awstralia

Brunei Darussalam

Gibraltar

Gwlad yr Iâ

Israel

Portiwgal

Seland Newydd

Singapore

Ynysoedd Ffaröe";

(b) yn Rhan 2, yn lle "Nid yw unrhyw diriogaethau wedi eu pennu yn y Rhan hon" rhodder y cofnodion a ganlyn—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"Saint Helena, Ascension a Tristan da Cunha

Ynysoedd Falkland, De Georgia ac Ynysoedd De Sandwich".

## RHAN 3

## Diwygiadau i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr

**Diwygiadau i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr**

**16.** Mae'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 17 i 19.

**Diwygiad i reoliad 4**

**17.** Yn rheoliad 4 (dehongli), yn y diffiniad o "hysbysu am drefniadau profion ar ôl cyrraedd", yn lle "rheoliad 6B" rhodder "rheoliad 6AB".

**Diwygiadau i reoliad 5A**

**18.** Yn rheoliad 5A(2)(a) (gofyniad i sicrhau bod teithwyr yn meddu ar hysbysiad o drefniadau profi ar ôl cyrraedd)—

(a) yn lle "rheoliad 6B" rhodder "rheoliad 6AB";

(b) yn lle "(gofyniad i drefnu profion cyn cyrraedd Cymru)" rhodder "(gofyniad i archebu a chymryd profion)".

**Diwygiad i reoliad 9**

**19.** Yn rheoliad 9(2)(a) (pŵer i ddefnyddio ac i ddatgelu gwybodaeth), yn lle "6B" rhodder "6AB".

## RHAN 4

## Diwygiadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd

**Diwygiadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd**

**20.** Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 21 i 25.

**Diwygiadau i reoliad 2**

**21.** Yn rheoliad 2 (dehongli)—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn y diffiniad o "person awdurdodedig", ym mharagraffau (a) a (b), hepgorer "neu'n ymadael";

(b) hepgorer y diffiniad o "gwasanaeth teithwyr rhyngwladol allan".

**Diwygiadau i reoliad 3**

**22.** Yn rheoliad 3 (darparu gwybodaeth cyn archebu ac wrth gofrestru)—

(a) yn lle paragraff (2)(a) rhodder—

"(a) yn achos cyfleuster a ddarperir er mwyn archebu taith ar-lein—

(i) yr wybodaeth a nodir yn Rhan 1 o'r Atodlen y mae rhaid iddi fod wedi ei gosod mewn lle amlwg fel ei bod yn weladwy cyn archebu,

(ii) dolen i https://llyw.cymru/profion-i-bobl-syn-teithio-i-gymru-coronafeirws-covid-19,

(iii) dolen i https://www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk,

(iv) dolen i https://llyw.cymru/categoriau-o-bobl-syn-esempt-neu-sydd-wediu-heithrio-rhag-gofynion-teithio-penodol,

(v) dolen i https://www.gov.uk/uk-border-control,

(vi) dolen i https://www.nidirect.gov.uk/articles/coronavirus-covid-19-international-travel-advice,

(vii) dolen i https://www.gov.scot/publications/coronavirus-covid-19-international-travel-quarantine/pages/overview/, ac

(viii) dolen i https://llyw.cymru/rheolauteithio;" ;

(b) yn lle paragraff (2)(b) rhodder—

"(b) yn achos cyfleuster a ddarperir er mwyn cofrestru ar gyfer taith ar-lein—

(i) yr wybodaeth a nodir yn Rhan 1 o'r Atodlen y mae rhaid iddi fod wedi ei gosod mewn lle amlwg fel ei bod yn weladwy cyn cofrestru,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) dolen i https://llyw.cymru/profion-i-bobl-syn-teithio-i-gymru-coronafeirws-covid-19,

(iii) dolen i https://www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk,

(iv) dolen i https://llyw.cymru/categoriau-o-bobl-syn-esempt-neu-sydd-wediu-heithrio-rhag-gofynion-teithio-penodol,

(v) dolen i https://www.gov.uk/uk-border-control,

(vi) dolen i https://www.nidirect.gov.uk/articles/coronavirus-covid-19-international-travel-advice,

(vii) dolen i https://www.gov.scot/publications/coronavirus-covid-19-international-travel-quarantine/pages/overview/, ac

(viii) dolen i https://llyw.cymru/rheolauteithio;”;

(c) ym mharagraff (2)(c)(ii)(cc), yn lle “rheoliad 6B” rhodder “rheoliad 6AB”;

(d) hepgorer paragraffau (2A), (2B) a (2C);

(e) ym mharagraff (3), yn lle “pharagraffau (1) a (2A)” rhodder “pharagraff (1)”.

**Diwygiadau i reoliad 3A**

**23.** Yn rheoliad 3A (darparu gwybodaeth cyn i daith ymadael)—

(a) ym mharagraff (4)(a)(vi), yn lle “rheoliad 6B” rhodder “rheoliad 6AB”;

(b) yn lle paragraff (4)(b) rhodder—

“(b) pan ddarperir yr wybodaeth drwy’r e-bost—

(i) yr wybodaeth a nodir yn Rhan 1 o’r Atodlen,

(ii) dolen i https://llyw.cymru/profion-i-bobl-syn-teithio-i-gymru-coronafeirws-covid-19,

(iii) dolen i https://www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk,

(vi) dolen i https://llyw.cymru/categoriau-o-

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

bobl-syn-esempt-neu-sydd-wediu-heithrio-rhag-gofynion-teithio-penodol,

(v) dolen i https://www.gov.uk/uk-border-control,

(vi) dolen i ttps://www.nidirect.gov.uk/articles/coronavirus-covid-19-international-travel-advice,

(vii) dolen i https://www.gov.scot/publications/coronavirus-covid-19-international-travel-quarantine/pages/overview/, ac

(viii) dolen i https://llyw.cymru/rheolauteithio;";

(c) hepgorer paragraffau (6) i (9).

**Diwygiadau i reoliad 6**

**24.** Yn rheoliad 6 (troseddau)—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer "(7),";

(b) ym mharagraff (2), hepgorer "neu (7),".

**Amnewid yr Atodlen**

**25.** Yn lle'r Atodlen rhodder—

## "YR ATODLEN

### Rheoliadau 3, 3A a 4

### Rhan 1

Yr wybodaeth sydd i'w darparu at ddibenion rheoliadau 3(2)(a)(i), 3(2)(b)(i), 3(2)(c)(i), 3A(4)(b)(i) a 3A(4)(c) yw—

"**Essential information to enter the UK**

Everyone entering the UK (including UK nationals and residents) must provide proof of a negative COVID-19 test taken within 3 days prior to direct departure to the UK.

Fill in your passenger locator form up to 48 hours before arrival. You must declare all countries you have visited or transited through in the 10 days prior to your arrival in the UK on your passenger locator form.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

What you have to do after you arrive depends on the countries you have visited or transited through.

Before departure, check the list of red, amber and green countries as the list can change regularly.

*Red list passengers*

Book a Managed Quarantine Package

Complete a passenger locator form

You may not enter the UK unless you are a British or Irish National, or you have residence rights in the UK. You must enter through a designated port of entry and quarantine in a government approved hotel for 10 days.

*Amber list passengers*

Book tests for day 2 and 8

Complete a passenger locator form

Make plans to self-quarantine in private accommodation for 10 full days after arrival (or full duration of stay if less than 10 days).

*Green list passengers*

Book a test for day 2

Complete a passenger locator form

These measures apply to all persons (including UK nationals and residents) arriving in the UK from outside the common travel area comprising the United Kingdom, Ireland, the Isle of Man, and the Channel Islands. The British Overseas Territories are not in the common travel area. Public health requirements may vary depending upon in which nation of the UK you're staying.

England: https://www.gov.uk/uk-border-control

Northern Ireland:
https://www.nidirect.gov.uk/articles/coronavirus-covid-19-international-travel-advice

Scotland:
https://www.gov.scot/publications/coronavirus-covid-19-international-travel-quarantine/pages/overview/

Wales: https://gov.wales/travelrules

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Failure to comply with these measures is a criminal offence and you could be fined. There are a limited set of exemptions from these measures. Check the list of exemptions carefully. You may be fined if you fraudulently claim an exemption."

Rhan 2

Y datganiad sydd i'w ddarparu at ddibenion rheoliad 4 yw—

(a) y fersiwn Gymraeg—

"Dyma neges iechyd y cyhoedd ar ran asiantaethau iechyd y cyhoedd y Deyrnas Unedig.

Os ydych wedi bod mewn gwlad oren neu goch o fewn y 10 niwrnod diwethaf, neu wedi tramwyo drwy wlad o'r fath, rhaid ichi fynd i gwarantin am y 10 niwrnod cyntaf ar ôl ichi gyrraedd. Mae hyn er mwyn eich diogelu chi ac eraill.

Symptomau'r coronafeirws yw peswch cyson newydd, tymheredd uchel neu golli eich synnwyr blasu neu arogli arferol, neu newid yn eich synnwyr blasu neu arogli arferol. Os ydych yn profi unrhyw un o'r symptomau hyn, ni waeth pa mor ysgafn ydynt, fe'ch cynghorir i wneud eich hunan yn hysbys i'r criw.

Camau syml y gallwch eu cymryd i helpu i'ch diogelu chi eich hun a'ch teulu yw:

Gwisgo masg

Golchi eich dwylo

Osgoi cyffwrdd â'ch wyneb â'ch dwylo

Cadw pellter cymdeithasol

Dal peswch a thisian mewn hances bapur a'i gwaredu ar unwaith.";

(b) y fersiwn Saesneg—

"The following is a public health message on behalf of the UK's public health agencies.

If you have been in or transited through an amber or red country within the previous 10 days you must quarantine for the first 10 days

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

after you arrive. This is to protect yourself and others.

The symptoms of coronavirus are a new continuous cough, a high temperature or a loss of, or change in, normal sense of taste or smell. If you experience any of these symptoms, however mild, you are advised to make yourself known to the crew.

Simple measures you can take to help protect yourself and family are:

Wear a mask

Wash your hands

Avoid touching your face with your hands

Practice social distancing

Catch coughs and sneezes in a tissue and dispose of it immediately.";

(c) y datganiad sydd ym mharagraff (a) neu (b) wedi ei gyfieithu i iaith a gydnabyddir yn swyddogol yn y wlad yr ymadawyd â hi."

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 2.40 p.m. ar 14 Mai 2021